ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

£11 miliwn i helpu rhoi llais cryfach i gymunedau Cymru

Mae prosiectau sydd â'r nod o helpu i roi llais cryfach i filoedd o bobl mewn cymunedau yng Nghymru wrth wneud penderfyniadau lleol wedi elwa o werth £11 miliwn o grantiau Loteri Genedlaethol a gyhoeddwyd heddiw.

Bydd deg Cyngor Gwirfoddol Sirol (CGS) ar draws Cymru yn defnyddio £11,342,121 gan raglen Lleisiau Lleol y Gronfa Loteri Fawr i helpu cymunedau i ddylanwadu ar wasanaethau, polisïau a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt er mwyn i'w hanghenion gael eu diwallu'n well.

Dyfarnwyd £983,973 i **Medrwn Môn** i reoli portfolio o 9 o gynlluniau dros gyfnod o 4 mlynedd i annog grŵpiau dan anfantais sydd wedi'i tan-gynrychioli a chymunedau i ddatblygu sgiliau a hyder i'w galluogi i fod yn rhan o gynllunio a cyflenwi gwasanaethau ar Ynys Môn. Mae'r grant yn cynnwys costau cyflawni'r prosiect, cyflogaeth Rheolwr Portfolio, lleoliadau, gweinyddiaeth a costau gwerthuso.

Meddai John R Jones, Prif Swyddog **Medrwn Môn**, " 'Rwyf yn hynod falch bod y Cronfa Loteri Fawr wedi penderfynu dyfarnu'r cyllid pwysig i ni. Hoffwn ddiolch i bawb a weithiodd mor ddiwyd i ddatblygu ein portffolio 'Gwrandwch / Listen' ac edrychaf ymlaen i'w ddatblygiad dros y bedair mlynedd nesaf er mwyn i lais defnyddwyr gwasanaeth a'r trydydd sector cael ei glywed mewn cynllunio a darparu gwasanaethau yn arbennig yn y cyfnod economaidd yma."

Mae'r prosiectau portffolio'n cynnwys: Cyngor a'r Bopeth Ynys Môn, Cydraddoldeb Hîl Gogledd Cymru, Llais Ni, Age Cymru Gwynedd a Môn, Cyngor ac Adfocatiaeth Gogledd Cymru, Digartref Ynys Môn, Groundwork Gogledd Cymru, Cymunedau'n Gyntaf Porthyfelin a Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru.

Meddai Cyfarwyddwr Cronfa Loteri Fawr Cymru, John Rose: "Bydd yr ariannu a gyhoeddwyd heddiw yn darparu mwy o gyfle i gymunedau Cymru leisio eu barn. Mae'n ymwneud â phobl yn dweud eu dweud i ddylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu cymuned ac ar eu bywydau eu hunain. Bydd Lleisiau Lleol yn eu cefnogi i fod yn fwy cynaliadwy ac yn wydn i heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn y dyfodol yn ogystal â datblygu ymdeimlad mwy cryf o gymuned."

Datblygwyd Lleisiau Lleol ar ôl i'r Gronfa Loteri Fawr gomisiynu astudiaeth o Bolisïau ac Arferion Lleisiau Dinasyddion ar draws Cymru a'r DU. Gwelodd fod polisi'r Llywodraeth dros y 10 i 15 mlynedd diwethaf wedi cydnabod buddion a phwysigrwydd cyfranogiad cymunedol a bod gwerth "sylweddol" o

ran gallu dinasyddion i fedru dylanwadu ar ddylunio a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus.

Datgelodd canfyddiadau hefyd y gallai fod yr un mor fuddiol i ganolbwyntio nid yn unig ar yr agenda sector cyhoeddus ond hefyd ar ffyrdd o annog cymunedau i ddatblygu eu hymagweddau a'u hatebion eu hunain i anghenion y gymuned.

Ar sail y canfyddiadau hyn, bydd Lleisiau Lleol yn sicrhau y bydd modd i fwy o bobl ddylanwadu ar bolisïau a phenderfyniadau ynglŷn â gwasanaethau yn eu cymuned, bydd modd i gymunedau a darparwyr gwasanaethau gydweithio i ddylunio a chyflwyno gwell gwasanaethau a bydd gan gymunedau fwy o allu i ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau a phrosiectau gwell. Bydd canlyniadau tymor hwy yn cynnwys gwell ymgysylltu a chymryd rhan yn y gymuned, a phobl sy'n adrodd yn fwy effeithiol am welliannau yng nghyflwyniad y gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion.